# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Gupta Dental Surgeons, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Dyddiad arolygu: 1 Medi 2021

Dyddiad cyhoeddi: 2 Rhagfyr 2021

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhydycar**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **agic@llyw.cymru**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-80391-348-3



© Hawlfraint y Goron 2021

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .......... 5

2. Crynodeb o'n harolygiad .......... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .......... 7

   Ansawdd profiad y claf .......... 8

   Darparu gofal diogel ac effeithiol .......... 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .......... 18

4. Beth nesaf? .......... 21

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol .......... 23

   Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .. 24

   Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol .......... 25

   Atodiad C – Cynllun gwella .......... 26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da**

# Ein gwerthoedd

**Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:**

- **Annibynnol**
- **Gwrthrychol**
- **Gofalgar**
- **Cydweithredol**
- **Awdurdodol**

# Ein blaenoriaethau

**Drwy ein gwaith, ein nod yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig barn annibynnol am ansawdd y gofal** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arferion da** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Gupta Dental Surgeons yn 41 Forge Road, Port Talbot, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, ar 1 Medi 2021.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid deintyddol.

Ystyriodd AGIC i ba raddau yr oedd y gwasanaeth yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017, y Safonau Iechyd a Gofal (2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Gupta Dental yn darparu gwasanaeth cyfeillgar a phroffesiynol i'w gleifion.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau rheoli heintiau da er mwyn diogelu cleifion a staff.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dda iawn, ac roedd yr ardaloedd clinigol yn cynnwys adnoddau digonol, yn lân ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd gan y practis gyfarpar priodol ar waith i drin cleifion yn unol â gofynion COVID-19
- Roedd y staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn gefnogol
- Rhoddwyd gwybodaeth i gleifion am sut i gadw eu cegau yn iach, ac yr opsiynau o ran triniaeth lle y bo'n briodol.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith yn y practis.
- Rhaid i'r practis sicrhau y caiff gweithgareddau gwella ansawdd addas eu cynnal yn rheolaidd.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Gupta Dental yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Port Talbot. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau deintyddol cyffredinol preifat ac ar ran y GIG.

## Ansawdd profiad y claf

*Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod Gupta Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur AGIC o'r farn bod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn ardderchog neu'n dda iawn. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y staff yn y practis deintyddol yn eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wybodaeth er mwyn helpu cleifion i wneud dewisiadau effeithiol am eu hopsiynau o ran triniaeth. Roedd yr awyrgylch yn groesawgar, a gwelsom y staff yn gwneud ymdrech i wneud i'r cleifion ymlacio a theimlo'n gartrefol o'r eiliad yr oeddent yn cyrraedd.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 36 o holiaduron.

### Aros yn iach

#### Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Ategwyd hyn hefyd gan gofnodion y cleifion a archwiliwyd gennym. Roedd tystiolaeth yn y cofnodion o gyngor a roddwyd ar wybodaeth iechyd y geg, cyngor ar ddeiet, rhoi'r gorau i smygu a'r cyswllt rhwng alcohol/smygu ac iechyd y geg. Roedd yn amlwg bod y cleifion yn cael eu hannog i newid eu hymddygiad ac yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Lle y bo'n gymwys, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr hoffent mewn unrhyw benderfyniadau am eu triniaeth. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

## Gofal ag urddas

Yn ddieithriad, roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff pan wnaethant ymweld â'r practis.

Gwelsom gleifion yn cael eu cyfarch a'u croesawu gan staff y dderbynfa mewn ffordd broffesiynol a chyfeillgar. Pe bai angen siarad â chlaf yn breifat, gallai'r staff gynnal y sgyrsiau hynny mewn deintyddfa wag. Roedd aelod o staff yn y dderbynfa neu'r swyddfa yn gyfrifol am ddelio â galwadau ffôn, fel y gellid ateb galwadau yn breifat.

Roedd gan y practis bolisïau priodol ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch. Gwelsom fod poster cod egwyddor, ymarfer proffesiynol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol wedi'i arddangos yn ardal aros y cleifion.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd triniaeth yn cael eu cau yn ystod apwyntiadau i ddiogelu preifatrwydd y cleifion.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi teimlo'n rhan o unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth, gymaint ag yr oeddent am fod yn rhan o hynny. Gwnaethant hefyd ddweud eu bod wedi cael gwybodaeth glir am y triniaethau sydd ar gael a bod y gost bob amser yn cael ei hegluro cyn iddynt gael unrhyw driniaeth.

Gwelsom fod y rhestr brisiau yn nodi costau triniaethau yn cael ei harddangos yn yr ystafell aros.

Er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19, roedd yr holl wybodaeth i gleifion wedi cael ei symud o'r ystafell aros, a dim ond y wybodaeth ofynnol oedd ar gael ar daflenni y gellid eu sychu ar yr hysbysfyrddau.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod 'bob amser' yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith.

Pe bai angen gwasanaethau cyfieithu ar glaf, gallai'r practis ddefnyddio llinell iaith i gael gwasanaethau cyfieithu.

Roedd gwasanaethau a gwybodaeth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ar gais, ond nid oedd hyn yn cael ei hysbysebu'n dda yn y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis ddweud wrth gleifion y gallant gael gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen.

## Gofal amserol

Dywedodd pob un ond dau o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael gofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn y canllaw i gleifion, ar y drws ffrynt ac yn cael ei rhoi fel rhan o neges peiriant ateb y practis.

Mae'r practis yn sicrhau y caiff darpariaeth ei gwneud ar gyfer apwyntiadau brys bob dydd.

Roedd y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd y staff wrthym pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn rhoi gwybod i'r claf a oedd yn aros am unrhyw oedi ac yn cynnig apwyntiad arall, pe bai hynny'n briodol, heb godi unrhyw gostau ychwanegol.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Dangosodd adolygiad o gofnodion y cleifion fod y cleifion yn cael eu holi ynghylch eu hanes meddygol pan fyddant yn ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion perthnasol a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

### Hawliau pobl

Gwelsom fod mynediad i'r practis yn dda. Roedd ardal cleifon y practis wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd drysau'r holl ystafelloedd yn addas i gadeiriau olwyn, ac roedd ystafelloedd ymolchi i'r anabl ar gael.

Nodwyd bod sawl polisi ar waith i gefnogi staff a chleifion, gan gynnwys polisi cyfle cyfartal. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn gallu cyflawni ei ymrwymiadau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Roedd polisi Cyfle Cyfartal a pholisi Cyfrinachedd ar waith yn y practis.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd polisi cwynion ar waith yn y practis, a oedd yn cydymffurfio â Gweithio i Wella[1] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017[2].

Ers pandemig COVID-19, nid oedd y practis wedi casglu adborth gan gleifion. Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn casglu adborth gan gleifion, yn adolygu'r adborth hwnnw ac yn gweithredu arno.

> Yr hyn sydd angen ei wella
>
> Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn casglu adborth gan gleifion, yn adolygu'r adborth hwnnw ac yn gweithredu arno

[1] Gweithio i Wella yw proses y GIG ar gyfer codi pryderon, ymchwilio iddynt a dysgu oddi wrthynt.

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2017/202/made/welsh

## Darparu gofal diogel ac effeithiol

*Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael gofal deintyddol diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys adnoddau digonol ac yn cael eu cadw i safon foddhaol.

Gwelsom rai anghysondebau mewn prosesau clinigol, gan gynnwys dod o hyd i hen stoc a hepgoriad yn y gwiriadau o dymereddau'r oergell.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff sy'n gweithio yn y practis a'r cleifion sy'n ymweld ag ef. Roedd y tu allan i'r adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Roedd y tu mewn i'r adeilad yn olau, yn daclus ac yn fawr.

Gwelsom fod nifer o bolisïau ar waith mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad, gan gynnwys polisi iechyd a diogelwch a pholisi wrth gefn mewn argyfwng. Roedd polisïau ac asesiadau risg ar gael i bob aelod o'r staff. Roedd asesiad risg amgylcheddol ar waith er mwyn helpu i ddiogelu'r staff a'r cleifion.

Gwelsom fod dyfeisiau diffodd tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn yr adeilad a nodwyd gennym eu bod wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd polisi tân ar waith yn y practis, ond roedd rhywfaint o wybodaeth ar goll, gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau'r staff. Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi tân cynhwysfawr ar waith. Roedd dau aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant tân, ond gwnaethom awgrymu y dylid darparu hyfforddiant mewnol i bob aelod o'r staff er mwyn rhoi dealltwriaeth o ddiogelwch tân iddynt.

Gwelsom fod pecyn cymorth cyntaf ar gael yn y practis, a oedd yn cynnwys cyfarpar priodol cyfredol. Roedd y prif ddeintydd wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf.

Gwelsom fod nifer o hen nodwyddau yn y deintyddfeydd, ynghyd ag anesthetig cyffredinol a oedd wedi darfod y diwrnod blaenorol. Rhaid i'r practis sicrhau y caiff gwiriadau stoc rheolaidd eu cynnal ac y caiff hen gyfarpar a meddyginiaethau eu gwaredu'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi diogelwch tân cynhwysfawr ar waith.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff gwiriadau stoc rheolaidd eu cynnal ac y caiff hen gyfarpar a meddyginiaethau eu gwaredu'n briodol.

### Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff nad yw'n beryglus (domestig) yn ddiogel. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n briodol.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd 2002, mae angen i gyflogwyr naill ai atal neu leihau amlygiad staff i sylweddau sy'n beryglus i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis brotocol 'Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd' (COSHH) a pholisi ar gyfer trin a thrafod mercwri.

Roedd gan y practis broses ar gyfer glanhau a sterileiddio (dihalogi) offerynnau deintyddol mewn ystafell ddihalogi benodedig. Gwelsom dystiolaeth fod protocol ar waith i wirio'r offer sterileiddio a'i fod yn gyfredol.

Roedd polisi rheoli heintiau a pholisi diogelwch offer miniog ar waith ar gyfer y staff.

Roedd y deintyddfeydd i'w gweld yn lân ac yn daclus ac roedd gan y practis amserlen glanhau i'r staff ei dilyn er mwyn sicrhau bod pob un ohonynt yn cael eu cadw'n unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Gwelsom fod archwiliad WHTM 01-05 wedi cael ei gwblhau ym mis Awst 2021.

Gwelsom fod system cymorth anadlu mecanyddol wedi'i gosod yn y ddwy ddeintyddfa o ganlyniad i bandemig COVID-19, gan alluogi'r practis i fodloni'r

gofynion o ran cylchredeg yr aer wrth ymgymryd â Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol (AGP)[3].

### Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis i ymdrin ag argyfyngau mewn perthynas â chleifion, gan gynnwys polisi dadebru.

Mae dyletswydd ar ddarparwyr gofal iechyd i ddarparu sgiliau dadebru os bydd unigolyn yn dioddef ataliad cardio-anadlol ac i sicrhau y caiff staff eu hyfforddi a'u diweddaru'n rheolaidd hyd at lefel o fedrusrwydd sy'n briodol ar gyfer eu rôl[4]. Gwelsom dystiolaeth bod y mwyafrif o'r staff wedi cael hyfforddiant yn ystod y deuddeg mis diwethaf ar sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i ymgymryd â thriniaeth dadebru cardiobwlmonaidd (CPR). Roedd angen i un aelod o'r staff gwblhau hyfforddiant, ond gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant wedi'i drefnu ar gyfer yr wythnos ganlynol.

Roedd gan y practis y cyffuriau brys a'r cyfarpar dadebru brys priodol, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU)[5]. Roedd y rhain yn cael eu storio yn y ddeintyddfa flaen ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom gynghori y dylid symud y rhain i'r tu allan i'r ddeintyddfa fel y gellid cael gafael arnynt pe bai triniaeth yn mynd rhagddi yn y ddeintyddfa.

Gwelsom fod cyffuriau brys yn cael eu cadw'n briodol mewn oergell cyffuriau yn y practis. Fodd bynnag, gwelsom achos lle nad oedd tymheredd yr oergell wedi cael ei wirio. Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnod dyddiol ei gadw o dymereddau'r oergell.

---

[3] Gweithdrefn feddygol neu ofal iechyd yw gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol sy'n arwain at gynhyrchu gronynnau yn yr awyr neu ddefnynnau anadlol, a all fod yn bathogenig

[4] https://www.resus.org.uk/quality-standards/primary-dental-care-quality-standards-for-cpr/

[5] Nod y Cyngor Dadebru (DU) yw hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, a chyfrannu at achub bywydau drwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil a chydweithredu

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnod dyddiol ei gadw o dymereddau'r oergell.

## Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis i hybu ac amddiffyn lles plant ac oedolion agored i niwed. Roedd y polisïau hyn yn cynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol yn yr ardal. Nodwyd bod Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan ar gael yn hawdd i'r staff.

Roedd y Rheolwr Cofrestredig yn dangos dealltwriaeth dda o rwymedigaethau'r practis, a disgrifiodd y camau a fyddai'n cael eu cymryd pe bai pryder yn cael ei godi. Roedd swyddog diogelu arweiniol y practis wedi cwblhau hyfforddiant lefel uwch ar ddiogelu er mwyn sicrhau bod ganddo'r sgiliau a'r ddealltwriaeth briodol o faterion diogelu i weithredu fel swyddog arweiniol.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod cyfarpar priodol yn y deintyddfeydd er mwyn sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol (pelydr-X) mewn cyflwr da ac roedd yr ardaloedd rheoledig wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau pelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n rheolaidd. Roedd y ddogfennaeth ar gyfer rheoli trefniadau amddiffyn rhag ymbelydredd yn gyfredol. Gwelsom fod y rheolau lleol[6] ar gael i'r staff.

[6] Dylai rheolau lleol (neu weithdrefnau gwaith diogel) adlewyrchu arferion gwaith diogel ac ymwneud â'r gwaith o reoli diogelwch laserau, systemau IPL a dyfeisiau LED o ddydd i ddydd. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/474136/Laser_guidance_Oct_2015.pdf

Yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[7] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Amlygiad Meddygol) 2017[8], roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd datganiad o ddiben y practis yn nodi'r trefniadau priodol ar gyfer derbyn, asesu, diagnosio a thrin cleifion. Roedd amrywiaeth o bolisïau ar waith yn y practis i ategu'r swyddogaethau hyn hefyd.

Dywedwyd wrthym fod canllawiau proffesiynol, rheoliadol a statudol, megis canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE)[9], yn cael eu hystyried a'u dilyn lle y bo'n briodol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Gwelsom dystiolaeth mai nifer cyfyngedig iawn o archwiliadau clinigol oedd ar waith yn y practis er mwyn helpu i ddangos bod y gwasanaeth yn cyrraedd safonau proffesiynol cyfredol. Gwnaethom argymell y dylid cynnal amrywiaeth ehangach o archwiliadau yn rheolaidd er mwyn hyrwyddo gwelliant parhaus.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn defnyddio adnoddau Gwella Ansawdd gan gynnwys Canllawiau Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain[10]. Adnoddau datblygu tîm yw'r rhain, sy'n annog y tîm i ganolbwyntio ar arferion gorau a gofynion deddfwriaethol, ac ar y ffordd maent yn gweithio gyda'i gilydd.

---

[7] Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[8] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

1. [9] https://www.**nice**.org.uk/.../**oral-and-dental-health**

[10] Rhaglen sicrhau ansawdd yw cynllun Arfer Da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, sy'n galluogi ei haelodau i gyfleu ymrwymiad parhaus i weithio yn unol â safonau arfer da i'r cleifion

Gwelsom mai nifer cyfyngedig o adolygiadau cymheiriaid oedd yn cael eu cynnal yn y practis. Gwnaethom argymell y dylid cwblhau amrywiaeth o adolygiadau cymheiriaid o archwiliadau cadw cofnodion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau y caiff amrywiaeth eang o archwiliadau eu cynnal.

Rhaid i'r practis sicrhau y caiff amrywiaeth o adolygiadau cymheiriaid eu cwblhau.

## Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel, gan sicrhau bod gwybodaeth bersonol a sensitif yn cael ei diogelu. Roedd gan y practis bolisi rheoli cofnodion hefyd. Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw ar bapur ac yn electronig.

## Cadw cofnodion

Cawsom olwg ar sampl o gofnodion y cleifion. Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw i safon addas ac ni wnaed unrhyw argymhellion pellach.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith yn y practis, a oedd yn cael eu hadolygu bob blwyddyn, ond gwelsom ei bod hi'n anodd dod o hyd i'r rhain ar adegau.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y Rheolwr Cofrestredig[11] sy'n berchen ar Gupta Dental, ac ef hefyd yw'r Unigolyn Cyfrifol[12] a'r prif ddeintydd. Rheolwr y Practis, sydd hefyd yn gweithio fel nyrs ddeintyddol, sy'n rheoli'r gwaith o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd.

Roedd amrywiaeth eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion. Roedd y datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol sy'n ofynnol gan y rheoliadau, ac roeddent ar gael i'r cleifion yn y pecyn croeso ac ar y wefan.

Yn ystod y diwrnod gwelsom fod trefniadau llywodraethu'r practis yn anrhefnus, ac yn ei gwneud hi'n anodd dod o hyd i bolisiau, gweithdrefnau a hyfforddiant staff. Gallai hyn beri risg pe na allai'r staff ddod o hyd i wybodaeth yn gyflym pe bai angen, a gallai olygu y gellid colli hyfforddiant staff gorfodol. Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer llywodraethu'r practis.

---

[11] Ystyr "rheolwr cofrestredig" yw rhywun sydd wedi'i gofrestru o dan Ran 2 o'r Ddeddf fel rheolwr practis deintyddol preifat.

[12] Ystyr "unigolyn cyfrifol" yw cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog arall y sefydliad sy'n gyfrifol am oruchwylio'r ffordd y caiff practis deintyddol preifat ei reoli;

Cadarnhaodd y Rheolwr Cofrestredig ei fod yn ymwybodol o'i ddyletswyddau o ran hysbysiadau, gan gynnwys anafiadau difrifol i gleifion ac absenoldeb y rheolwr cofrestredig neu newidiadau i'r rheolwr cofrestredig, y mae'n rhaid eu hanfon i AGIC.

Yr hyn sydd angen ei wella

- Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith yn y practis.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Y Rheolwr Cofrestredig a rheolwr y practis sy'n gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir. Roedd y staff yn groesawgar, yn gadarnhaol ac yn wybodus wrth siarad â'r tîm arolygu.

Gwelsom dystiolaeth bod nifer o newidiadau wedi cael eu gwneud o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd hyn yn cynnwys adolygu diogelwch y staff yn y practis, a diweddaru'r trefniadau ar gyfer cadw'r staff a'r cleifion yn ddiogel.

Roedd cyfarfod tîm y staff wedi bod yn anghyson ar adegau, ond gwelsom dystiolaeth bod y rhain yn cael eu cynnal bob chwarter o leiaf. Dywedwyd wrthym fod y staff yn defnyddio grŵp WhatsApp i drafod materion yn ymwneud â'r gwaith ac fel arall. Dywedwyd wrthym fod hyn wedi cryfhau cydberthnasau'r staff, a bod y cyflogeion yn teimlo'n hyderus ynghylch codi pryderon a materion pan oedd angen gwneud hynny.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau diogelwch y staff a'r cleifion.

Gwnaethom gynnal adolygiad o hyfforddiant staff gorfodol yn y practis. Oherwydd anawsterau wrth ddod o hyd i ddogfennaeth, bu'n anodd rhoi sicrwydd i'r tîm arolygu fod hyfforddiant staff gorfodol wedi'i gwblhau. Gofynnwyd i'r practis gasglu rhagor o dystiolaeth ar gyfer sawl aelod o'r staff. Gwelsom nad oedd un aelod o'r staff wedi cwblhau ei holl hyfforddiant gorfodol, ond bod yr hyfforddiant hwn wedi'i drefnu ar y diwrnod. Ar adeg llunio'r adroddiad, cawsom dystiolaeth i ddangos bod yr hyfforddiant hwn wedi cael ei gwblhau. Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

### Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau ac achosion uniongyrchol o ddiffyg cydymffurfio yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rhoddwyd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Os byddwn yn nodi unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth drwy hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. Mae rhoi hysbysiad diffyg cydymffurfio yn fater difrifol a dyma'r cam cyntaf mewn proses a all arwain at gamau cyfreithiol sifil neu droseddol.

Dylai cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn cadarnhau i ba raddau y mae practisau deintyddol yn cyrraedd Safonau Iechyd a Gofal 2015 a, lle y darperir deintyddiaeth breifat, i ba raddau y maent yn bodloni Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Lle y bo'n briodol, rydym yn ystyried i ba raddau y mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2017 ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

## Atodiad B – Cynllun Gwella Uniongyrchol

### Gwasanaeth: Gupta Dental Surgeons

### Dyddiad arolygu: 01/09/21

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Disgrifiad o'r diffyg cydymffurfio / Camau i'w cymryd | Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion brys yn ymwneud â diffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |
| | | | | |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

### Enw (priflythrennau):

### Teitl swydd:

### Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Gupta Dental Surgeons

## Dyddiad arolygu: 01/09/21

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Dylai'r practis ddweud wrth gleifion y gallant gael gwybodaeth drwy gyfrwng y Gymraeg os oes angen. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol; | Mae arwyddion Cymraeg wedi cael eu gosod yn ardal y dderbynfa ac mae ffurflenni Cymraeg wedi cael eu hargraffu yn barod i'w defnyddio. | Felicity Williams | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau ei fod yn casglu adborth gan gleifion, yn adolygu'r adborth hwnnw ac yn gweithredu arno. | 6.3 Gwrando a Dysgu o adborth; | Rydym yn annog y cleifion i ysgrifennu adolygiad ar Google ac i ddechrau rhoi adborth drwy e-bost. | Amrish Gupta | Parhaus |
| **Darparu gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod polisi diogelwch tân cynhwysfawr ar waith. | 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch; | Mae gennym bellach bolisi diogelwch tân cyfredol ar waith ac mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol ohono. | Amrish Gupta/Felicity Williams | Mae'r holl gamau gweithredu yn yr adroddiad |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | | | wedi'u cwblhau. |
| Rhaid i'r practis sicrhau y caiff cofnod dyddiol ei gadw o dymereddau'r oergell. | 2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi, | Caiff cofnod tymereddau newydd ei gadw. | Felicity Williams | Cwblhawyd |
| Rhaid i'r practis sicrhau y caiff gwiriadau stoc rheolaidd eu cynnal ac y caiff hen gyfarpar a meddyginiaethau eu gwaredu'n briodol. | 2.6 Rheoli Meddyginiaethau; | Cyflwyno hapwiriadau misol a'u cofnodi, a chyflwyno gwiriadau wythnosol o'r deintyddfeydd. | Amrish Gupta/Felicity Williams | Parhaus |
| Dylai'r practis sicrhau y caiff amrywiaeth eang o archwiliadau eu cynnal. | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; | Fel tîm, rydym wedi penderfynu cyflwyno rhagor o archwiliadau clinigol yn ychwanegol at WHTM01-05, a byddwn yn cynnal archwiliad rhoi'r gorau i smygu hefyd. | Amrish Gupta | Erbyn 03/22 |
| Rhaid i'r practis sicrhau y caiff amrywiaeth o adolygiadau cymheiriaid eu cwblhau. | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesi; | Rydym wedi penderfynu cynnal adolygiad cymheiriaid o'n proses atgyfeirio yn y practis. | Amrish, Amit, Tara | Erbyn 03/22 |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid i'r practis sicrhau bod trefniadau addas ar waith ar gyfer llywodraethu'r practis. | Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd | Caiff amser arwain a rheoli ei neilltuo ar gyfer Amarish a Felicity. | Amrish a Felicity | Parhaus |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol diweddaraf | 7.1 Y Gweithlu | Rydym wedi cyfarwyddo Dental HR Limited i'n helpu i gynnal hyfforddiant gorfodol. | Amrish Gupta a Felicity Williams | Cwblhawyd |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (priflythrennau): Amrish Gupta**

**Teitl swydd: Prif Ddeintydd**

**Dyddiad: 06/10/2021**